Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

2 Chwefror 2025
Cyflwyniad Crist yn y Deml

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Y Ficer

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
Darllenwyr: Liz Harewood / Jayden Mahoney
Ceir yr **Emynau** *yn y drefn gwasanaeth***:**

6.00pm Yr Hwyrol Weddi
Salm: 122
Darlleniadau: Haggai 2:1-9 / Ioan 2:18-22
Darllenwyr: Beti Davies / Gwynn Matthews
Emynau: 443 (Missionary 554); 174 (Rhosymedre 509); 230 (St Catherinie)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Cynthia Davies, Megan Davies, John Hicks, Eleri Hughes, Ann Wyn Jones, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Phyllis Bryer, a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 4 Chwefror 2025:
Dim Ymarfer Côr

Dydd Mercher 5 Chwefror 2025
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 9 Chwefror 2025
4ydd Sul cyn y Garawys
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi

IS-BWYLLGOR CYLLID AC EIDDO

Cynhelir cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo nos Lun 3 Chwefror yn neuadd yr Eglwys am 6.00pm

CYNGERDD AWR GINIO

Cynhelir Cyngerdd o dan nawdd *Actifyddion Caerdydd* dydd Mawrth 4 Chwefror yn EDS am 1.00pm. Bydd yr 'Heath Quartet', sef pedwarawd llinynnol a sefydlwyd yn 2002, yn perfformio. Mae'r rhaglen yn cynnwys Pedwarawd Llinynnol Haydn yn B fflat *Opus 50* a Phedwarawd Llinynnol Dvorak, yn E fflat *Opus 51*. Croeso i bawb. Tocynnau yn £6.50 wrth y drws.

I FFWRDD

Bydd y Ficer i ffwrdd o ddydd Mawrth 4 Chwefror i ddydd Gwener 7 Chwefror ar gwrs hyfforddi yng Ngogledd Iwerddon gyda gweddill deoniaid bro yr Esgobaeth, yr Archddiaconiaid a'r Esgob. Os oes unrhyw fater yn codi a wnewch chi gysylltu ag un o'r wardeniaid os gwelwch yn dda.

Y GANOLFAN GLYD

Diolch i bawb a gynorthwyodd yn y Ganolfan Glyd dydd Sul diwethaf. Bydd EDS ar ddyletswydd eto **dydd Sul 23 Mawrth**. Os hoffech wirfoddoli a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr Eglwys. Am ragor o wybodaeth mynnwch air â Judith Pouslon.

DATGANIAD ORGAN

Cynhelir datganiad organ yn EDS o dan nawdd *Cardiff Organ Events* dydd Gwener 14 Chwefror am 1.15pm. David Geoffrey Thomas fydd y datgeinydd.

BORE COFFI A CHLONC

Byddwn yn cynnal ein bore Coffi a Chlonc yn neuadd EDS bore Sadwrn 15 Chwefror rhwng 10.30 a chanol dydd; croeso cynnes i bawb. Mae'r boreau hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddod ynghyd i sgwrsio'n hamddenol. Croeso i bawb.

CYMDEITHASU – MYND AM GINIO

Yr ydym bwriadu mynd am ginio yng nghanol Caerdydd, dydd **Mawrth 25 Chwefror** am 12.30pm. Er mwyn cael syniad o'r nifer a hoffai ddod a fyddech garediced â rhoi eich enw ar y daflen yng nghefn yr eglwys.

CYNGERDD GŴYL DEWI

Cynhelir cyngerdd Gŵyl Dewi er budd Cymorth Cristnogol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf nos Sadwrn 1 Mawrth am 7.30pm. Bydd Band Arian Dirwestol Tongwynlais, Côr Caerdydd ac Ysgol Gynradd Dinas Llandaf yn perfformio. Esgob Llandaf fydd y llywydd.

GWEDDÏAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- Talaith Anglicanaidd Aotearoa, Seland Newydd a Pholynesia
- Ardal Gweinidogaeth y Rhath a Cathays, y Parchedig Ganon Stewart Lisk (Arweinydd)

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 3 Chwefror: Seiriol

Hebreaid 11:32-40; Salm 31:19-24; Marc 5:1-20

Gweddïwn: Esgobaeth Llundain – Eglwys Loegr

Ardal Gweinidogaeth De Caerdydd, y Parchedig Dean Atkins (Arweinydd)

Dydd Mawrth 4 Chwefror: Manche Masemola

Hebreaid 12:1-4; Salm 22:22-31; Marc 5:21-43

Gweddïwn dros: Esgobaeth Long Island – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America

Ardal Gweinidogaeth Gorllewin Caerdydd, y Parchedig Andrew Sully (Arweinydd)

Dydd Mercher 5 Chwefror:

Hebreaid 12:4-7, 11-15; Salm 103:1,2, 13-18; Marc 6:1-6

Gweddïwn dros: Esgobaeth Los Angeles – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America

Ardal Gweinidogaeth Gogledd Caerdydd, y Parchedig Jim Griffiths (Arweinydd)

Dydd Iau 6 Chwefror:

Hebreaid 12:18-24; Salm 48:1-10; Marc 6:7-13

Gweddïwn dros: Esgobaeth Louisiana – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America

Ardal Gweinidogaeth Taf Wenallt, y Parchedig John Davis (Arweinydd)

Dydd Gwener 7 Chwefror:

Hebreaid 13:1-8; Salm 27:1-10; Marc 6:14-29

Gweddïwn dros: Esgobaeth Gorllewin Louisiana – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America

Ardal Gweinidogaeth y Garth, y Parchedig Sandra Birdsall, Arweinydd

Dydd Sadwrn 8 Chwefror:

Hebreaid 13:9-17, 20, 21; Salm 23; Marc 6:30-34

Gweddïwn dros: Esgobaeth Luapula – Talaith yn Eglwys Anglicanaidd Affrica

Deoniaeth Eglwysilan, y deon bro dros dro, y Parchedig Simon Freeman.